PILI PALAS

ASESIAD RISG

Gweithgaredd:	Ymweliadau ysgolion i Pili Palas
Peryglon:	Llithro a chodymu, perygl haint, sgriffiadau, cysylltiad a cherbydau.
Effeithio pwy?	Ymwelwyr a staff.
Effeithiau posib:	Amrywio o fan anafiadau – sy'n bosib i oruchwylwyr y grwpiau eu trin – i anafiadau ble mae angen triniaeth ysbyty. Marwolaeth mewn achosion difrifol.

Camau i reoli'r risg

Maes parcio	Mae'n rhaid i blant gael eu hebrwng oddi-ar ac yn ol i'r bysus gan athrawon. Wedi cyrraedd Pili Palas bydd y plant yn ymgynull yn yr ystafell addysg – sydd wedi ei leoli yn y prif adeilad.
Y Ganolfan Addysg	Bydd y plant yn gwrando ar sgwrs fer ac yn gwylio fideo yn yr ystafell – ynghyd a'u hathrawon ac aelod o staff Pili Palas. Wedi'r sesiwn yn y stafell bydd y plant yn cael eu rhoi mewn grwpiau – dim mwy na 30 mewn nifer – er mwyn mynd o amgylch yr atyniad yn ddiogel. Fe fydd yr athrawon ac aelod o staff Pili Palas hefo'r grwpiau drwy gydol eu taith o amgylch. Mae'n ofynnol i'r plant aros hefo'u gilydd drwy'r amser – a'r athrawon fydd yn gyfrifol amdanynt drwy gydol eu hymweliad.
Y daith o amgylch	Peryglon posibl a) Mae dau bwll dwr, bas, o fewn y ty gloynnod. Mae ffens ddiogel o'u hamgylch a mae aelod o staff Pili Palas yn bresennol yn yr ardal yma bob amser. b) Mae dau o byllau bychan yn y ty adar – ffens ddiogel o amgylch rhain hefyd.

c) Tair gris yn arwain at bont fechan yn y ty gloynnod. Rhaid gofalu am blant bychan yn y fan hyn.

ch) Fe all lloriau'r ty gloynnod fod yn wlyb o bryd i'w gilydd oherwydd gwaith dyfrio. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r lleithder mae'r gloynnod ei angen. O'r herwydd – mae'n rhaid i athrawon sicrhau nad ydi'r plant yn rhedeg yn y ty gloynnod a'r ty adar.

Ni fydd plant yn cael cyffwrdd unrhyw anifeiliaid - heblaw eu bod yn cael eu goruchwylio gan aelod o staff Pili Palas. Fodd bynnag, fe all y plant ddod i gysylltiad a'r gloynnod wrth iddynt hedfan yn rhydd.

Buarth y fferm

Fe ddylai athrawon a staff fod yn ymwybodol fod risg y gallai *E-coli* fod yn bresennol ble mae anifeiliaid sy'n pori – sy'n cynnwys geifr. Nid yw ymelwyr yn cael bwydo'r anifeiliaid yma ond mae'n bosib iddynt ddod i gysylltiad a'r anifeiliaid drwy eu mwytho. Hyd yn oed os nad ydi ymwelwyr yn mwytho'r anifeiliad mae'n angenrheidiol iddynt olchi eu dwylo cyn gadael y rhan yma o'r atyniad. MAE'N OFYNNOL I BOB YMWELYDD OLCHI EU DWYLO CYN GADAEL CORNEL YR ANIFIELIAIAD ANWES A'R BUARTH. Mae cyfleusterau golchi dwylo i'w cael yma.

Glanweithdra

Mae angen rhybuddio plant i beidio pigo pethau – fel plu, brigau, gloynnod – oddi ar y lloriau. Mae Pili Palas yn argymell y dylai ymwelwyr olchi eu dwylo wedi bod mewn cysylltiad agos ag anifeiliaid. Mae toiledau – hefo cyfleusterau ymolchi a sebon – wedi eu lleoli ger y prif fynedfa, o fewn y prif adeilad, yn yr ystafell chwarae meddal a thu allan – ger y maes chwarae. Mae cyfleusterau golchi dwylo a sebon yn nghornel yr anifeiliaid anwes hefyd.

Mynediad cadeiriau olwyn	Mae mynediad i gadeiriau olwyn yn rhwydd o amgylch yr holl adeilad.
Y maes chwarae	Mae'r maes chwarae wedi ei leoli mewn ardal ddiogel – a mae ffens effeithiol rhwng y maes chwarae a'r maes parcio. Mae'r ardal yn cael ei archwilio'n gyson – er mwyn nodi unrhyw ffaeleddau cyn iddynt ddatblygu i fod yn broblem diogelwch ac er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw pan fo'r angen. Mae'n rhaid i athrawon oruchwylio'r plant pan meant yn y maes chwarae. Mae asesiad risg ar wahan i'w gael ar gyfer y castell chwarae sydd yn y parc. Mae'r asesiad yma ar gael i'w ddarllen yn swyddfa Pili Palas. Mae'r castell chwarae a'r matiau dioglewch sy'n ei amgylchynu yn cael eu harchwylio yn rheolaidd hefyd.
Ystafell chware meddal	Mae'r ystafell chwarae meddal wedi ei leoli mewn adeilad ar wahan i'r prif adeilad. Mae'n rhaid i'r plant ddod allan o'r prif adeilad a mynd i fyny ramp a thrwy ddrws arwhan i'r ystafell chwarae meddal. Mae'n angenrheidiol eu bod yn cael eu goruchwylio gan athro tra'n gwneud hyn. Nid yw'r ystafell chwarae meddal ei hun yn cael ei oruchwylio gan staff Pili Palas – mae arwyddion rheolau diogelwch i'w cael yn yr adeilad a mae'n ofynnol i'r athrawon wneud yn siwr fod y rheolau yma yn cael eu dilyn. Mae'r offer yn yr ystafell yn cael ei archwilio'n rheolaidd fel bod unrhyw waith cynnal a chadw yn cael ei wneud pan fo'r galw am hynny.
Castell neidio	Mae'r Castell Neidio yn Gastell Safon Oedolion 30 x 30. Mae gan y Castell Dystysgrif Cydymffurfiaeth a Safonau Ewropeaidd – CEN/TC-136 ag asesiad risg ar wahan. Mae'r ddau ar gael i'w darllen yn swyddfa Pili Palas. Mae'r Castell Neidio yn cael ei archwilio'n ddyddiol. Nid yw'r Castell Neidio yn cael ei oruchwylio gan staff Pili Palas. Mae goruchwyliaeth

	athrawon yn hanfodol. Mae arwydd rheolau diogelwch wedi ei leoli wrth ymyl y Castell – sydd yn cynnwys canllaw uchafswm taldra. Mae'n rhaid i'r athrawon wneud yn siwr fod y rheolau yma yn cael eu dilyn.
Y llwybr natur	Mae'r llwybr natur yn cael ei archwilio'n gyson er mwyn cywiro unrhyw ffaeleddau pan fo'r angen. Mae'r archwiliadau yma yn sicrhau fod y ffensus a'r llwybrau mewn cyflwr da, a'r coed a'r cloddiau wedi eu cadw rhag gor-dyfu. Mae'n rhaid nodi nad yw'r llwybr natur yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.
Pwll Bywyd Gwyllt	Mae'r pwll yma yn bwll bas o fewn ardal sydd a ffens ddigonol o'i amgylch. Ni chaniateir i blant ymweld a'r ardal yma heb oruchwyliaeth athro. Bydd sesiynau addysg yn digwydd o amgylch y pwll o bryd i'w gilydd – bydd aelod o staff Pili Palas yn arwain y sesiwn ond cyfrifoldeb yr athrawon fydd diogelwch y plant.
Diogelwch tan	Mae offer ymladd tan wedi ei leoli mewn amryw o lefydd o fewn yr adeiladau a mae digonedd o allanfeydd argyfwng. Os oes tan yn digwydd – y prif faes parcio yw'r man ymgynull. Ni chaniateir ysmygu yn unrhyw le o fewn yr adeilad.
Cymorth cyntaf	Mae bocsus cymorth cyntaf – wedi eu stocio'n llawn – yn y siop a'r caffi. Mae aelodau allweddol o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf proffesiynol- er hynny, cyfrifoldeb yr athrawon yw anghenion cymorth cyntaf y plant.

Mae Pili Palas yn cael ei archwilio a'i gymeradwyo yn ol gofynion Safonau Sw yr Ysgrifenydd Gwladol ac yn derbyn trwydded o dan y Ddeddf Trwyddedu Sw – 1982.

Mae’r drwydded yn cymeradwyo pob ongl o iechyd a diogelwch yr anifeiliad a’r cyhoedd.